| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **2 MEDI 2015** |
| **TEITL:** | **CAIS AMRYWIO TRWYDDED EIDDO –<br>BELLE VUE, FFORDD GAERGYBI, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## MANYLION Y CAIS

Derbyniwyd cais i amrywio trwydded eiddo Belle Vue, Ffordd Gaergybi, Bangor ar 2 Gorffennaf 2015 oddi wrth deilydd y drwydded Mr Christopher D Jere. Gwelir copi o'r ffurflen gais i amrywio a chynllun yr eiddo yn Atodiad 1.

Yn unol â'r ffurflen gais, natur yr amrywiad arfaethedig yw ymestyn yr ardal trwyddedadwy yr eiddo i gynnwys yr adeiladau allanol yn yr ardd gwrw i weithredu fel bar. Bwriedir bydd oriau cyflenwi alcohol yn yr ardd gwrw'r un peth a'r tŷ tafarn. Yn ychwanegol bwriedir gostwng oriau agor y sefydliad o 08:00 – 01:30 dydd Llun i ddydd Sul i 09:00 – 01:30 dydd Llun i ddydd Sul.

Mae'r camau mae'r ymgeisydd yn bwriadu dilyn i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu wedi eu rhestri yn adran M o'r ffurflen gais.

Gwelir copi o'r trwydded gyfredol yn Atodiad 2.

## SYLWADAU

| **Ymateb** | **Sylwadau** |
|---|---|
| Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd | Dim sylwadau |
| Awdurdod Trwyddedu | Dim sylwadau |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad – cynnig amod TCC |
| Gwasanaeth Tan & Achub | Dim sylwadau |
| Partion eraill a diddordeb | 1 Gwrthwynebiad |

Derbyniwyd sylwadau oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru. Nad yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais ond yn dymuno bod y teledu cylch cyfyng (TCC) sydd wedi ei osod ar yr eiddo yn destyn i amodau penodol TCC.

Derbyniwyd un gwrthwynediab i'r cais oddi wrth preswylydd lleol. Mae eu gwrthwynebiad yn awgrymu bod yr ymgeisydd heb hysbysebu y cais mewn man amlwg ar yr eiddo ac yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu o Diogelwch y Cyhoedd ac Atal Niwsans Cyhoeddus.

Gwelir copi o'r sylwadau yn Atodiad 3.

Fe ymwelodd Swyddog Gorfodaeth yr Uned Trwyddedu yr eiddo ar 7 Gorffennaf 2015 i wirio bod yr hysbyseb yn cael ei arddangos ar yr eiddo yn unol a'r rheoliadau. O'r tystiolaeth hyn roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod yr hysbysebion yn cwrdd a'r rheoliadau. Gwelir copi o tystiolaeth y Swyddog yn Atodiad 4.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried y cais am drwydded eiddo yn unol ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003.